



PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 19 Mehefin 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams	Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd H Boggis	Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd S Bradwick	Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd A Calvert	Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Chapman	Y Cynghorydd A Cox
Y Cynghorydd A Crimmings	Y Cynghorydd J Cullwick
Y Cynghorydd A Davies-Jones	Y Cynghorydd G Davies
Y Cynghorydd J Davies	Y Cynghorydd M Diamond
Y Cynghorydd J Elliott	Y Cynghorydd M Forey
Y Cynghorydd A Fox	Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd D Grehan	Y Cynghorydd M Griffiths
Y Cynghorydd J Harries	Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L Hooper	Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd P Howe	Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd J James	Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd M Fidler-Jones	Y Cynghorydd G Jones
Councillor K Jones	Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd W Jones	Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd W Lewis	Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd D Macey	Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd K Morgan	Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd M Norris	Y Cynghorydd Owen-Jones
Y Cynghorydd W Owen	Y Cynghorydd S Pickering
Y Cynghorydd M Powell	Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd S. Rees-Owen	Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd A Roberts	Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd G Stacey	Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd G Thomas	Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd R Turner	Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd M Weaver	Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd D Williams	Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd T Williams	Y Cynghorydd C Willis
Y Cynghorydd R Yeo	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

Eraill yn Bresennol:

Yr Athro Marcus Longley – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Alan Lawrie – Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd
Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dr Ruth Alcolado – Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Morgannwg

Greg Dix – Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

25 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Eitemau 6 a 9 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Yeo ddatganiad o fuddiant personol ynglŷn â'r mater, ac arhosodd yn yr ystafell pan gafwyd pleidlais ar yr eitem – "Mae fy ngwraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn Ysbyty'r Tywysog Siarl."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Forey ddatgan y buddiant personol canlynol sydd ddim yn rhagfarnu – "Roeddwn i'n cynrychioli'r Aelodau Etholedig ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg am 3 blynedd nes i'm cyfnod gwasanaeth ddod i ben ym mis Ionawr 2016."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Elliot ddatgan buddiant personol nad yw'n rhagfarnu ynglŷn â'r mater – "Mae fy chwaer yng nghyfraith yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K. Morgan ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu, ac ymwrthododd rhag pleidleisio ar y ddwy eitem: "Rwy'n gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Fidler Jones ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu – "Rwy'n gweithio i Tenovus Cancer Care"
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Mae teulu a ffrindiau yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac mae fy musnes wedi'i is-gontractio gan feddygfa deulu leol."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Mae aelod o'r teulu'n gweithio i'r Bwrdd Iechyd."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwy'n Aelod o Gyngor Iechyd Cymunedol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Davies ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Hyd at fis Mai 2018 roeddwn i wedi fy nghontractio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Bradwick ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Mae aelod o'm teulu yn aelod o

- staff uwch ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Adams ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Roedd fy ngwraig arfer gweithio yng ngwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac mae'n derbyn pensiwn y GIG."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwy'n gyn aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Yn ddiweddar dechreuodd fy nith weithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Morgannwg Cwm Taf."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Harries ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Mae perthynas deuluol agos yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Mae fy mab yn Feddyg lau ac roedd yn gweithio yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ystod y cyfnod adolygu perthnasol, er nad oedd e'n gweithio yn y gwasanaethau mamolaeth."
- Gwnaeth Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Davies ddatgan y buddiant personol canlynol nad yw'n rhagfarnu: "Rwyf wedi fy nghofrestru â Banc Staff Nyrsys Cwm Taf."

26 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Belzak, L. De Vet, S. Evans, S. M. Evans, H. Fychan, M. Tegg, E. Webster a G. Williams.

27 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

28 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r cais gan y Cyngor i wahodd Aelodau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i gyfarfod o'r Cyngor, ac ar ran y Cyngor croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau canlynol o'r Bwrdd Iechyd i'r cyfarfod:

- Yr Athro Marcus Longley – Cadeirydd y Bwrdd;
- Alan Lawrie – Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl;
- Dr Ruth Alcolado – Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol; and
- Greg Dix – Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion.

Diolchodd Cadeirydd y Bwrdd Iechyd i'r Cyngor am y gwahoddiad i'r cyfarfod a dechreuodd drwy roi gwybod i'r Bwrdd am benodiad diweddar Prif Weithredwr dros dro oherwydd bod y Prif Weithredwr presennol ar gyfnod estynedig o absenoldeb salwch.

Siaradodd y Cadeirydd am gyhoeddi adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a Gynecolegwyr, a oedd yn bwrw goleuni ar fethiannau difrifol y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth, a gwnaeth sylwadau ar y prif

faterion a nodwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â'i feirniadaeth o wasanaethau amlddisgyblaethol; ansawdd data; llywodraethu o ansawdd, cywirdeb data, adrodd am ddigwyddiadau difrifol ac arweinyddiaeth allweddol, llywodraethu sefydliadol, llywodraethu clinigol; diwylliannau gweithio ac anallu i wrando ar brofiadau a dysgu ohonynt. Dywedodd y Cadeirydd fod y methiannau hyn gan y Bwrdd Iechyd yn 'annerbyniol' ac ymddiheurodd yn gyhoeddus i'r teuluoedd sydd wedi'u heffeithio.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr i'r Aelodau o ran y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma yn dilyn yr adroddiad a gwneud y Bwrdd Iechyd yn destun mesurau arbennig, gan roi gwybod am waith y panel annibynnol ar oruchwylio mamolaeth i:

- ceisio sicrwydd cadarn gan y Bwrdd Iechyd bod argymhellion yr adroddiad yn cael eu gweithredu yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt;
- cytuno ar broses a sefydlu adolygiad clinigol amlddisgyblaethol annibynnol o'r 43 o achosion a nodwyd ac ymarfer edrych yn ôl hyd at 2010, fel mae'r adolygiad yn eu hargymell;
- rhoi cyngor i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar y camau gweithredu sydd eu hangen i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd a defnyddwyr wrth wella gwasanaethau mamolaeth a meithrin ymddiriedaeth a hyder o'r newydd;

Rhoddodd y Cadeirydd wybod hefyd am y gwaith o gomisiynu adolygiad annibynnol mewn perthynas â'r ffaith nad oedd yr adroddiad bydwreigiaeth mewnol a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd ar gael yn dilyn nodi Offerynnau Statudol oedd heb eu hadrodd yn ystod y cyfnod dan sylw. Siaradodd y Cadeirydd hefyd am ansawdd data a'r angen am ddata cyflawniad dibynadwy i gynorthwyo'r Bwrdd yn y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd fod gwersi wedi'u dysgu a bod y rhain yn cael eu cymhwysu nid yn unig i wasanaethau mamolaeth ond ar draws yr holl wasanaethau. Dywedwyd wrth yr Aelodau, oherwydd y methiannau gan y Bwrdd Iechyd, roedd teuluoedd yn 'pleidleisio gyda'u traed' ac yn dewis geni eu plant mewn ysbytai eraill y tu allan i Gwm Taf.

Manteisiodd y Cadeirydd hefyd ar y cyfle i ganmol staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sy'n mynd y tu hwnt i'r disgwyl, a siaradodd am ganfyddiadau'r adroddiad ynglŷn â phroblemau staffio a diwylliant staffio'r Bwrdd Iechyd.

Cafodd yr Aelodau wybod am benodiad Mr Dix yn Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion, a manteisiodd ar y cyfle i wneud sylwadau ar y mesurau diogelu sy'n cael eu dwyn ymlaen mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r cynrychiolwyr am fynychu'r cyfarfod a soniodd am y sgysiau anodd a oedd eisoes wedi digwydd gyda'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r adolygiad, a siaradodd am sicrwydd cychwynnol a gafodd yn dilyn ymweliad diweddar â'r gwasanaethau mamolaeth. Cyfeiriodd yr Arweinydd at 4 prif faes pryder mewn perthynas â'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â chyflawniad Damweiniau ac Achosion Brys; Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifainc; Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Mamolaeth. Mewn perthynas â'r olaf o'r rhain, dywedodd yr Arweinydd ei fod yn ystyried ei fod wedi cael ei gamarwain gan

y Prif Weithredwr presennol yn ystod cyfarfodydd un i un ynghylch yr adolygiad a methiannau'r Bwrdd lechyd mewn perthynas â data ac adrodd. Ychwanegodd nad oedd yn teimlo ei fod erioed wedi cael ei gamarwain gan Gadeirydd y Bwrdd, ond ychwanegodd ei bod yn ymddangos bod sicrwydd ffug wedi cael ei roi i'r Bwrdd. Cymerodd yr Arweinydd y cyfle i ddarparu enghreifftiau o'r materion a oedd yn gyffredin yn y Bwrdd lechyd, a oedd wedi'u hanwybyddu drwy'r broses gwyno. Holodd am yr wybodaeth a ddarparwyd i Bwyllgor Ansawdd a Risg y Bwrdd, a galwodd am adolygiad ffurfiol ynglŷn â sut mae'r bwrdd yn delio â chwynion ac yn dysgu amdany'n nhw. Cyfeiriodd hefyd at y feirniadaeth y mae'r staff wedi'i derbyn, a nododd y dylid cynnig ymddiheuriad iddyn nhw.

Diolchodd Cadeirydd y Bwrdd i'r Arweinydd am ei sylwadau a dywedodd fod delio â chwynion wedi cael ei flaenoriaethau, a bod adolygiad llawn yn y broses o gael ei gomisiynu. Ychwanegodd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth mewn perthynas ag ymgorffori ac adrodd am ddigwyddiadau difrifol, yn rhan o'r trosolwg llywodraethu.

Cyn croesawu cwestiynau gan Aelodau eraill, gwahoddodd yr Arweinydd y cynrychiolwyr yn ôl i gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol i ddarparu diweddariadau ac adennill hyder a sicrwydd etholwyr mewn perthynas â'r gwasanaethau mae'r Bwrdd lechyd yn eu darparu. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod yn hapus i wneud hynny.

Cafodd y cwestiynau/sylwadau canlynol eu gofyn/gwneud gan yr Aelodau yn rhan o drafodaeth hir, a bu'r Bwrdd lechyd yn cynnig ymatebion:

- Canfyddiadau adroddiad yr Ymgynghorydd Mewnol a pham mae'n ymddangos ei fod wedi cael ei guddio - Bydd adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal ynglŷn â pham nad yw hyn wedi cael ei adrodd yn y modd arferol.
- Gorboblogi ar wardiau mamolaeth - Cadarnhaodd cynrychiolwyr y Bwrdd lechyd fod y wardiau wedi'u gorboblogi, a rhoddon nhw wybod ynglŷn â sut mae hyn wedi cael ei unioni, trwy symud gwelyau. Rhoddon nhw wybod hefyd am ostyngiad yn nifer y genedigaethau ar y ward mamolaeth, fel y cynlluniwyd - roedd hyn wedi lliniaru'r problemau o ran capasiti.
- Atebolrwydd y Bwrdd – Bydd panel goruchwyllo mamolaeth annibynnol yn ystyried pob un o'r methiannau proffesiynol yr holl achosion sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad, a fydd yn dod â materion ynglŷn ag atebolrwydd i'r golwg.
- Staffio – Mae staff newydd gymhwys yn cael eu cefnogi gan raglen oruchwyllo ac amrywiaeth o fesurau cefnogi sydd yn eu lle gan gynnwys goruchwylwyr clinigol a 3 obstetregydd ymgynghorol newydd.
- Craffu – cytunodd y Cadeirydd fod craffu ar y datganiadau Llywodraethu yn hanfodol i lwyddiant y Bwrdd lechyd.
- Ymddiheuriad i Staff – Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ymddiheuro i'r holl staff a'r teuluoedd dan sylw am ymddygiad annerbyniol y Bwrdd lechyd a siaradodd am y flaenoriaeth o ran newid y diwylliant staffio o gam-drin a bwlio a gafodd ei nodi yn yr adroddiad. Siaradodd y cynrychiolwyr am feithrin ymddiriedaeth a hyder staff a'r arferion a roddwyd ar waith gan gynnwys 'gwarcheidwad rhyddid i siarad'
- Cynllun De Cymru – Dywedodd y Cadeirydd nad oedd modd i'r

Bwrdd ailymweld â'r penderfyniadau a oedd wedi'u gwneud o'r blaen mewn perthynas â'r cynllun, gan ddweud y byddai angen i benderfyniad o'r fath gael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.

- Hyder yn y Prif Weithredwr – Ailadroddodd Cadeirydd y Bwrdd fod y Prif Weithredwr presennol ar gyfnod o absenoldeb salwch a doedd dim modd iddo roi sylwadau pellach ynglŷn â hyn yn benodol.
- Ansawdd data – Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd y system Adrodd am Ddigwyddiadau Difrifol wedi cael ei dilyn yn iawn a sicrhodd yr aelodau fod diffygion o'r fath yn cael eu cywiro. Cyfeiriodd y cynrychiolwyr hefyd at ddata canlyniadau a'r profion sy'n cael eu dwyn ymlaen gan y Panel i lunio system gadarn.
- Materion Teithio – Cydnabu'r Cadeirydd y materion a'r costau i gleifion a'u teuluoedd mewn perthynas ag amser teithio ac argaeledd cludiant cyhoeddus i Ysbyty'r Tywysog Siarl o ardaloedd o fewn RhCT.
- Israddio Gwasanaethau Pediatreg yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg – Dywedodd cynrychiolwyr y byddai'r symud o Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn cael ei wneud yn brydlon, a phwysleisiodd eto'r rheswm dros y symud, gan gydnabod nad oedd digon o staff cymwys ar draws y ddau safle. Nodwyd yn ogystal â hynny, fod gan blant sydd ag anableddau cymhleth y gwyddwn amdany'n nhw lwybr cymorth yn ei le eisoes.
- Cwnsela mewn perthynas â Phrofedigaeth – Dywedodd y Cadeirydd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu i'r Aelodau mewn perthynas â'r mater hwn.
- Mesurau – Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Panel yn goruchwyllo'r mesurau penodol i'w rhoi ar waith.
- Sïon ar y cyfryngau? - Dywedodd y Cadeirydd y byddai ymateb ysgrifenedig i gleifion yn cael ei ddarparu mewn perthynas â'r 'bygythiad arfaethedig i gymryd achos cyfreithiol'.
- Trosglwyddiadau ambiwlans – Cadarnhawyd y byddai'r gwasanaeth yma ar gael ar ôl trosglwyddo Gwasanaethau Paediatreg.
- Recriwtio ymgynghorwyr – Rhoddodd y cynrychiolwyr wybod am y problemau o ran recriwtio staff i'r Bwrdd Iechyd, a chadarnhaon nhw fod yr ymgynghorwyr newydd a oedd wedi'u nodi'n flaenorol yn llenwi swyddi gwag a oedd yn bodoli eisoes, yn hytrach na swyddi newydd.
- Strategaeth ar gyfer adeiladu capasiti Gofal Iechyd Sylfaenol – Rhoddodd y cynrychiolwyr wybod am y camau breision sy'n cael eu cymryd i liniaru'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys gyda gwasanaethau y tu allan i oriau, a'r gwasanaeth cadarn sy'n cael ei ddatblygu trwy fuddsoddiad a charfan amlddisgyblaethol.
- Aelodau'r Bwrdd â chyfrifoldeb arbennig dros Wasanaethau Mamolaeth – Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw aelod penodol â chyfrifoldeb o'r fath.
- Gweithredu polisi chwythu'r chwiban?
- Y gost sy'n gysylltiedig â thalu cyflog dau Brif Weithredwr o ddydd Llun 24 Mehefin – Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yna oblygiadau ariannol i'r penodiad dros dro a dywedodd fod angen sefydlu arbenigedd er mwyn datblygu'r Bwrdd at y dyfodol. Daeth a'i sylwadau i ben trwy nodi y byddai diogelwch cleifion yn dod cyn costau.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r cynrychiolwyr am eu presenoldeb a'u hymatebion agored a gonest i'r sylwadau a wnaed.

Ailadroddodd ei ddiffyg hyder ei hun yn y Prif Weithredwr cyfredol ac edrychodd ymlaen at dderbyn Aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol i dderbyn tystiolaeth a sicrwydd y byddai'r gwasanaethau sydd wedi'u trafod yn gwella.

Diolchodd Cadeirydd y Cyngor i gynrychiolwyr y Bwrdd am eu presenoldeb a chydabu hefyd ymddygiad y cyhoedd a oedd yn bresennol a thalodd deyrnged i'r teuluoedd oedd yn bresennol.

(Nodwch: Oherwydd cyfyngiadau amser doedd dim modd i nifer o Aelodau'r Cyngor ofyn y cwestiynau oedd ganddynt. Cytunwyd y byddai ymatebion ysgrifenedig yn cael eu darparu i'r cwestiynau hynny.)

29 RHEOL 8 - DULL GWEITHREDU'R CYNGOR

PENDERFYNWYD parhau â'r cyfarfod yn unol â Rheol 8 - Dull Gweithredu'r Cyngor er mwyn trafod gweddill yr eitemau ar yr agenda a pharhau â busnes y Cyngor.

30 CYHOEDDIADAU

- Arweiniodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman ac R. Bevan deyrngedau yn dilyn y newyddion trist am farwolaeth dau gyn Gyngorydd Plaid Cymru, Michael Brittain (a fu'n aelod dros Tylorstown) a Vyvian Williams (a fu'n aelod dros Lanhari) - roedd y ddau'n aelodau ymroddedig o'r Cyngor, ac anfonwyd cydymdeimladau at eu teuluoedd.
- Rhoddodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings wybod i'r Aelodau am farwolaeth ddiweddar y cyn Gyngorydd John Davies, a fu farw'n ifanc y penwythnos diwethaf ac yntau ond yn 56 oed.

(Yn dilyn y cyhoeddiadau uchod cafwyd munud o dawelwch er parch i'r cyn Aelodau fu farw.)

- Cyflwynodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol L. Hooper ddeiseb i'r Cadeirydd ynglŷn â chyfyngiadau parcio ar Heol yr Eglwys isaf.
- Cyflwynodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. James ddeiseb i'r Cadeirydd ynglŷn â phryderon trigolion am barcio a gyrru'n rhy gyflym ar hyd y brif ffordd yn Llanilltud Faerdref.
- Cyflwynodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins ddeiseb i'r Cadeirydd ynglŷn â chroesfan sebra yn Llanharan.

- Roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol L. Walker wrth ei fodd i gyhoeddi bod Ysgol Tŷ Coch wedi ennill un o wobrau The Times Education am ei ddarpariaeth addysg amgen. Ychwanegodd mai hon oedd yr unig ysgol yng Nghymru i gael ei chydabod gan y gwobrau yma, ac roedd yn gobeithio darparu diweddariad i Aelodau yn y dyfodol ynglŷn â llwyddiant yr ysgol.
- Rhoddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Owen-Jones wybod i'r Aelodau am wobrau 'Pride of Wales' 2019 Nation Radio a ddyfarnwyd yn ddiweddar. Manteisiodd ar y cyfle i longyfarch trigolion RhCT oedd ymhlith yr enillwyr, sef Elizabeth Williams (Cyfraniad i'r Gymuned), Lucy Childs (Cynhaliwr y Flwyddyn) a Wayne Griffiths (Codwr Arian y Flwyddyn).
- Gwahoddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Macey yr Aelodau i achlysur sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Uwchradd Pontypridd, gyda chymorth Prifysgol De Cymru - 'Stories of Coal - Hanes y Diwydiant Glo yn Ne Cymru'.
- Arweiniodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol Turner y dymuniadau gorau i Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins ar gyfer ei briodas sydd ar ddod.
- Manteisiodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Cox ar y cyfle i longyfarch Ysgol Gymraeg Llwyncelyn yn dilyn ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar, a nododd lwyddiannau ysgolion eraill ar draws y Fwrdeistref Sirol hefyd.

31 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion 10 Ebrill a 15 Mai 2019 yn gofnod cywir o'r cyfarfod, ar yr amod caiff cofnod o bresenoldeb un Aelod ei ddiwygio.

32 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

1. **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Cullwick i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:**

"Pa gynlluniau sydd i wella cyfleusterau toiled yng Nghwm Rhondda yn ystod y tair blynedd nesaf er mwyn bodloni anghenion nifer cynyddol yr ymwelwyr?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:

Soniodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol Lewis am linellau amser y

cwestiwn yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Toiledau Lleol yng nghyfarfod y Cabinet ar 18 Mehefin. Cafodd y strategaeth ei datblygu yn dilyn asesiad o angen ac ymgynghoriad statudol 12 wythnos o hyd. Ychwanegodd fod gan y Strategaeth ddau amcan: gwella a gwneud y mwyaf o'r cyfleusterau sy'n bodoli eisoes; a hyrwyddo cyfleusterau hygyrch priodol ychwanegol. Aeth Cynghorydd y Fwrdeistref y Sirol Lewis yn ei flaen trwy roi gwybod am y buddsoddiad o £350,000 er mwyn cynnal a gwella cyfleusterau toiled dros y blynyddoedd diwethaf, gan gyfeirio at y cyfleusterau a ddatblygwyd yn ddiweddar yn y Canolfannau Cymuned newydd, gan gynnwys cyfleusterau newid. Daeth yr Aelod o'r Cabinet i ben trwy ychwanegu bod angen cael cydbwysedd rhwng sicrhau darpariaeth er mwyn helpu gyda nifer cynyddol yr ymwelwyr tra ein bod ni hefyd yn effro i'r perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth yn y cyfleusterau.

Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd J. Cullwick:

Soniodd y Cynghorydd Cullwick am bwysigrwydd twristiaeth a'r cyfleoedd i gynyddu nifer yr ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol, gan gyfeirio at Eisteddfod Genedlaethol 2022, ac ychwanegodd ei fod yn fodlon â'r strategaeth. Soniodd yr Aelod am yr ymateb gwael i'r ymgynghoriad a nododd fod y strategaeth yn ymateb i heriau yn hytrach nag achub y blaen arnynt. Cyfeiriodd yr Aelod at oriau agor cyfleusterau cyhoeddus penodol ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda rhai ar gael rhwng 9am-5pm dydd Llun i ddydd Gwener yn unig ac ar gau ar ddydd Sul. Gofynnodd a oedd yr amseroedd hyn er budd trigolion ac a oes angen adlewyrchu arnyn nhw er mwyn ystyried y galw. Daeth yr Aelod i ben drwy holi pam yr adroddwyd ar y strategaeth i'r Cabinet ar 18 Mehefin pan mai'r dyddiad cau statudol ar gyfer ei chyhoeddi oedd 31 Mai 2019.

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis

Ymatebodd yr Aelod o'r Cabinet trwy sôn am yr amrywiaeth o strategaethau a oedd angen eu hystyried mewn perthynas â chyfleusterau cyhoeddus, gan gyfeirio at y strategaethau twristiaeth a chanol trefi. Cytunodd yr Aelod â'r sylwadau am y cyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor hyrwyddo harddwch naturiol ac atyniadau yn yr Awdurdod ac ychwanegodd fod y strategaeth toiledau yn nodi'r cyfleoedd hyn ac wedi'u hymgorffori yn y cynllun. Rhoddodd yr Aelod Cabinet wybod am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda chynrychiolwyr y 3^{ydd} sector a'r sector preifat i ehangu'r strategaeth ymhellach. Mewn perthynas â'r oriau agor, ailadroddodd yr Aelod o'r Cabinet ei sylwadau am yr angen am gydbwysedd rhwng darparu cyfleusterau a sicrhau diogelwch staff glanhau oherwydd perygl ymddygiad gwrthgymdeithasol a fandaliaeth - mae'r rhain wedi digwydd o'r blaen mewn cyfleusterau cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mewn perthynas â'r ymgynghoriad, ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi cyfrannu at y strategaeth hefyd, er nad oedd llawer o adborth wedi'i gasglu trwy'r ymgynghoriad.

2 Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hughes i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad ynglŷn â Lido Cenedlaethol Cymru a gwneud datganiad ynglŷn â'r defnydd o'r cyfleuster gan glybiau

a grwpiau?"

Ymateb gan y Cynghorydd A. Crimmings:

Dywedodd y Cynghorydd Crimmings fod y Lido wedi croesawu 285,000 o ymwelwyr er 2015. Ar wahân i sesiynau defnydd unigol, mae'r Lido yn gartref i 3 chlwb nofio lleol dros bedair noson yr wythnos – RCT Performers, Clwb Nofio Pontypridd a Chlwb Nofio Cwm Rhondda. Mae hyn yn cyfateb i ychydig yn llai nag 11,000 o ddefnyddwyr. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Lido yn gartref i nifer o ddefnyddwyr eraill, gan gynnwys elusennau fel Tenovus ac achlysur nofio mewn dŵr oer i godi arian i'r digartref a drefnwyd gan elusen Crisis.

Ni ofynnwyd cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet.

3 Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

"Mae Parc Sglefrio Tonyrefail ar fin cofrestru'n elusen fel bod modd inni geisio am grantiau i agor parc sglefrio i bobl ifainc yr ardal. A fyddai'r Cyngor yn fodlon cefnogi'r grŵp trwy wneud cyfraniad er mwyn hwyluso'r ceisiadau grant?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:

Soniodd y Cynghorydd Crimmings am waith codi arian tebyg y gwnaeth hi yn ei ward ei hun a soniodd am y gefnogaeth mae'r Cyngor eisoes wedi'i rhoi i gais Parc Sglefrio Tonyrefail gan gynnwys lleoliadau cyfarfod ac ymgynghori. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet fod Cronfa'r Loteri Fawr wedi gwrthod y cynnig, a bod cyfarfodydd gydag Interlink yn cael eu cynnal, wedi'u hwyluso gan y Cyngor. Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i sylwadau i ben trwy ychwanegu nad oedd hi'n meddwl y byddai'n broblem i'r Cyngor gefnogi'r parc sglefrio wrth iddo geisio am gyllid.

Cwestiwn ategol gan y Cynghorydd Grehan:

Rhoddodd y Cynghorydd Grehan boster i'r Aelodau a oedd yn dangos y weledigaeth arfaethedig ar gyfer y parc sglefrio, a soniodd am sut y gallai'r parc ddenu twristiaid yn y dyfodol, gan ychwanegu nad oedd y parc ar gyfer trigolion Tonyrefail yn unig, ond ei fod ar gyfer trigolion RhCT i gyd. Ychwanegodd mai'r bwriad oedd i'r parc fod ar y map rhyngwladol oherwydd cystadlaethau rhyngwladol a chyfeiriodd at gystadlaethau posibl gyda'r Alban, yr Iwerddon a Lloegr. Cyfeiriodd yr Aelod ar y ffaith fod sglefrfyrdio yn gamp Olympaidd, ac o ganlyniad roedd y cyfleoedd ar gyfer y parc yn ehangach fyth. Daeth yr Aelod a'i sylwadau i ben trwy nodi gan fod y Cyngor wedi cynorthwyo gydag adnewyddu'r Lido trwy fuddsoddiad, roedd e'n gobeithio y byddai'r parc sglefrio yn derbyn cyfraniadau ac adnoddau tebyg er mwyn bod o gymorth i'r atyniad yn y dyfodol. Daeth yr Aelod a'i sylwadau i ben trwy

ofyn i'r parc gael ei gynnwys yng nghynllun twristiaeth y Cyngor o hyn ymlaen, ac i'r weledigaeth ar gyfer y parc gael ei gwireddu.

4 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol Rh. Lewis:

"Beth yw blaenoriaethau'r Cyngor o ran Lles?"

Ymateb gan y Cyngorydd Lewis:

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am yr ystod eang o flaenoriaethau a'r strategaethau gan gynnwys Cynllun Llesiant Cwm Taf, Cynllun Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cwm Taf, a Chynllun Corfforaethol y Cyngor ei hun gyda themâu trawstoriadol ac amcanion cydberthynol mewn ystod eang o feysydd. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd, adeiladu economi gref a chreu pobl iachus mewn cymunedau ffyniannus. Daeth yr Aelod o'r Cabinet a'i sylwadau i ben trwy gyfeirio at y cysylltiadau sydd wedi'u rhoi ar waith gyda blaenoriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ynglŷn ag unigrwydd ac arwahanrwydd, a'r gwaith a wnaed wrth ddatblygu'r Canolfannau Cymuned er mwyn mynd i'r afael â'r mater yma.

Cwestiwn Ategol gan y Cyngorydd Jarman:

Dywedodd y Cyngorydd Jarman fod unigrwydd fel arfer yn cael ei gysylltu â'r genhedlaeth hŷn yn unig. Cyfeiriodd, fodd bynnag, at adroddiad diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a oedd yn nodi bod unigrwydd yn gyffredin ymhlith plant a phobl ifainc. Holodd yr Aelod ynglŷn â pha strategaethau trawstoriadol sydd ar waith er mwyn paratoi a helpu cenedlaethau iau i ddeall y broblem yma a'u galluogi nhw i fynd i'r afael â hi?

Ymateb gan y Cyngorydd Lewis:

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y profiadau sydd ar gael i bobl ifainc, a chyfeiriodd at ddatblygiad diweddar Canolfan Cymuned Aberpennar fel enghraifft, sydd yn hygyrch ac ar gael i bawb waeth beth yw eu hoed neu'u cefndir. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y cyfleoedd yn y Ganolfan i bobl o bob cenhedlaeth chwarae rhan weithredol yn y gymuned fel bod cenedlaethau'n gallu dysgu oddi wrth ei gilydd. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at rôl allweddol y Gwasanaeth Ieuencid, Ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wrth sicrhau llesiant plant a phobl ifainc mewn perthynas â mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

5 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L. Walker i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser:

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn cynyddu ei chyfran o gyllid Cyfalaf ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol a'r rheini mewn unedau cyfeirio disgyblion i 75% gyda phartneriaid cyflenwi yn cwrdd â'r 25% arall o gostau {LIC 21ain Tachwedd 2018}. Yn wyneb y cynnig hael yma, a fydd y Cyngor hwn yn darparu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Tŷ Coch Ton-teg o dan ei raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a darparu cyfleuster diogel a digonol ar gyfer addysgu'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol Rosser:

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd unrhyw gynlluniau ffurfiol ar hyn o bryd i gynnwys ysgol newydd ar gyfer Ysgol Tŷ Coch yn rhan o gynigion Band B. Ychwanegodd fod y fframwaith presennol ar gyfer dewis ysgolion ar gyfer buddsoddiad Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnwys nifer o feini prawf cymhwysedd penodol ac, yn seiliedig ar y rhain a chyflwr adeilad yr ysgol, ni fyddai Ysgol Tŷ Coch yn bodloni'r gofynion cymhwysedd hyn ar gyfer cyllid. Parhaodd yr Aelod Cabinet drwy ddweud ei bod hi'n falch o ddweud bod yr ysgol wedi'i nodi yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20 ac y byddai'r cynlluniau'n cael eu datblygu yn fuan.

Cwestiwn Ategol

Gofynnodd y Cyngorydd Walker a fyddai'r Aelod o'r Cabinet yn cefnogi adolygiad annibynnol o'r ysgol i ganfod a yw'n addas i bwrpas. Cynigiodd y dylai'r garfan adolygu gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, Ymgynghorwyr Her a Phennaeth o Awdurdod arall.

Ymateb gan y Cyngorydd Rosser

Cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet ei bod hi'n hyderus ynglŷn â'r asesiad sydd wedi'i wneud, a'i bod hi'n hapus gydag asesiad yr Adran Addysg, ac felly nid oedd hi'n gweld unrhyw angen am adolygiad annibynnol.

6 Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Jones i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ar faterion y Priffyrdd ddatganiad ynglŷn â pha gyllid allanol y mae'r Cyngor yn ei sicrhau ar gyfer cynlluniau'r priffyrdd ar draws Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan y Cyngorydd A. Morgan:

Soniodd yr Arweinydd am nifer y ffynonellau allanol a ddefnyddiwyd i gynorthwyo'r Cyngor yn ei fuddsoddiad parhaus gan gyfeirio at y ffrydiau

ariannu fel y Gronfa Trafnidiaeth Leol, Llwybrau Diogel a 'Raft'. Parhaodd drwy wneud sylwadau ar y cynigion seilwaith sydd wedi'u gweithredu a'r defnydd o £1.4 biliwn o gyllid tanwariant gan Lywodraeth Cymru y bu RhCT yn cynnig amdano'n llwyddiannus. Ychwanegodd fod ffrydiau cyllid allanol wedi galluogi'r Cyngor i ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer nifer o gynlluniau allweddol gan gynnwys y Ffordd Gyswllt ar draws y Cwm yn Aberpennar, cynllun deuli'r A4119 a Ffordd Osgoi Llanharan, tra ei fod hefyd wedi'i helpu i gyflawni cynlluniau mewn ardaloedd lleol.

Doedd gan y Cyngorydd Jones ddim cwestiwn atodol i'r Aelod o'r Cabinet.

7 Cwestiwn Gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G. Caple i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan:

"A wnaiff Arweinydd y Cyngor roi diweddariad ynglŷn â'r cyllid o £3 miliwn ar gyfer cynlluniau trafndiaeth yn RhCT a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar?"

Ymateb gan y Cyngorydd Morgan:

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor wedi derbyn cyllid o £3.093 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, o dan y Gronfa Trafnidiaeth Leol. Roedd hyn yn cynnwys cyllid sylweddol ar gyfer ystod o gynlluniau gan gynnwys £1.6 miliwn i wella cynnig Teithiol Llesol y Cyngor, £600,000 ar gyfer gwelliannau i goridor strategol yr A4119, a dyraniadau ar gyfer cynlluniau Llwybrau Diogel yn Llwynypïa a Phont-y-clun, a fydd yn cyfrannu at wella diogelwch ar y ffyrdd lleol i drigolion yr ardaloedd hynny.

33 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR, PENODI CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU CRAFFU A PHWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, A DYRANNU RHYBUDDION O GYNNIG

Yn ei adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democritaidd a Chyfathrebu wrth yr Aelodau am ganlyniad yr adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod, yn dilyn ffurfio'r Grŵp Annibynnol.
PENDERFYNWYD:

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma.
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democritaidd a Chyfathrebu, i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, pan fydd yn derbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grŵp gwleidyddol, yn amodol ar dderbyn

unrhyw geisiadau dilynol i newid aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'u cyfeirio at y Cyngor.

3. Nodi nad yw Aelodau'r Cabinet yn gymwys i'w penodi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu na'r Pwyllgorau Craffu.
4. Nodi bod modd i o leiaf un Aelod o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgorau Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd, ond bod Arweinydd y Cyngor wedi'i eithrio o'r swyddi yma.
5. Y bydd Grŵp Plaid Cymru'n gyfrifol am benodi Cadeirydd y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a Grŵp y Gynghrair yn gyfrifol am benodi Cadeirydd Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.
6. Yn unol â'r enwebiadau a dderbyniwyd gan y Grwpiau Gwleidyddol priodol, bod yr Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sydd wedi'u nodi isod:--

Committee	Cadair	Is-gadeirydd
Trosolwg a Chraffu	L. M. Adams	S. Evans
Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad	M. Powell	G. Thomas
Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	S. Bradwick	T. Williams
Plant a Phobl Ifainc	S. Rees-Owen	W. Lewis
Iechyd a Lles	R.Yeo	G.Holmes

- 7 Penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Diamond yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber fel yr Is-gadeirydd yn unol â'r amodau a bennwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
- 8 Dyrannu'r 20 Rhybudd o Gynnig fel sy'n ofynnol o dan Reol Gweithdrefn y Cyngor 10.2(a) dros Flwyddyn 2019-2020 y Cyngor fel a ganlyn:-

Llafur: 10

Plaid Cymru: 5

Y Gynghrair: 2

Annibynnol: 1

Y Blaid Geidwadol: 1

'Aelodau heb eu Neilltuo': 1

34 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR 2019–2020

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i'r Aelodau gymeradwyo'r Rhaglen Waith ddrafft ar y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cyngor eu hystyried dros Flwyddyn y Cyngor 2019-20 (Atodiad 1 yr Adroddiad). Cafodd yr Aelodau wybod, yn dilyn cyhoeddi Cynigion Drafft Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn perthynas â'i adolygiad o Drefniadau Etholiadol y Cyngor, y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf ar ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ai drafod.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20 a chyflwyno diweddariadau pellach i gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol, fel y bo'n briodol.

35 RHYBUDD O GYNNIG

- A. Derbyniwyd y Rhybudd o Gynnig wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Webber, P. Jarman, M. Powell, K. Libby-Jones, J. James, L. M. Adams, S. Belzak, D. R. Bevan, H. Boggis, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Chapman, A. Cox, J. Davies, A. Crimmings, J. Cullwick, G. R. Davies, A. Davies-Jones, L. De Vet, M. Diamond, J. Elliott, S. Evans, S. M. Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, H. Fychan E. George, D. Grehan, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, P. Howe, G. Hughes, G. Jones, L. Jones, W. Jones, L. Hooper, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, D. Macey, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, W. Owen, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. M. Powell, S. Rees, S. Rees Owen, A. Roberts, J. Rosser, G. Smith, G. Stacey, E. Stephens, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, L. Walker, M. Weaver E. Webster, D. H. Williams, J. Williams, T. Williams, C. J. Willis ac R. Yeo, yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor:-

Yn dilyn yr adroddiad gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a Gynecolegwyr, sy'n amlygu'r methiannau difrifol ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg o ran darparu gwasanaethau mamolaeth diogel, yn ogystal â methiant y rheolwyr i uwchgyfeirio'r pryderon difrifol yma, mae'r Cyngor yma'n cefnogi Arweinydd y Cyngor mewn pleidlais o ddiffyg hyder yn Rheolwyr y Bwrdd Iechyd.

Cafodd y methiannau yma eu nodi yn yr Adroddiad Profiadau Cleifion, sy'n tynnu sylw at brofiadau gofidus ac annerbyniol rhai o'r teuluoedd a gafodd eu heffeithio gan y methiannau yn y gwasanaethau mamolaeth.

Fel mae'r adroddiad yn nodi, mae hi'n amlwg bod y methiannau yma wedi parhau i ddigwydd oherwydd diffyg sylfaenol o ran arweiniad a champau gweithredu ar lefelau uchaf y Bwrdd Iechyd, yn ogystal ag addewidion ffug a gafodd eu gwneud i Aelodau'r Bwrdd a gwleidyddion

lleol mewn perthynas â difrifoldeb y problemau. Nododd yr ymatebion yn yr Arolwg o Wasanaethau Mamolaeth Cwm Taf fod staff yr ysbytai wedi rhoi gwybod am eu pryderon drosodd a throsodd am beth amser. Serch hynny, doedden nhw ddim o'r farn bod modd iddyn nhw ddylanwadu ar unrhyw newidiadau gan nad oedd yr uwch reolwyr yn gwrando ar eu pryderon.

Mae'r negeseuon anghyson yma yn golygu bod partneriaid lleol allweddol wedi cael gwybodaeth gamarweiniol. Yn bwysicach fyth, mae hyn wedi cael effaith ddifrifol ar hyder unigolion yng ngallu uwch reolwyr y Bwrdd lechyd i ymateb i bryderon y teuluoedd hynny a gafodd eu heffeithio gan y methiannau.

Yn absenoldeb penderfyniad gan y Gweinidog lechyd a'r Bwrdd lechyd ynglŷn â diswyddo Prif Weithredwr Bwrdd lechyd Cwm Taf Morgannwg, **PENDERFYNODD** y Cyngor yma felly:

- Cefnogi Arweinydd y Cyngor wrth iddo alw ar Brif Weithredwr Cwm Taf Morgannwg i ystyried ei sefyllfa.
- Galw ar y Bwrdd lechyd i ystyried ei ddewisiadau'n ofalus wrth fynd i'r afael â'r pryderon difrifol yma cyn gynted ag y bo modd ac adfer hyder y cyhoedd mewn Gwasanaethau lechyd lleol.

(Nodwch: roedd yr aelodau canlynol a oedd yn bresennol yn ystod trafodaethau'r eitem yn dymuno cofnodi eu bod wedi pleidleisio o blaid y cynnig: Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Morgan, M. Webber, R. Bevan, A. Crimmings, G. Hopkins, R. Lewis, M. Norris, T. Leyshon, M. Adams, A. Fox, S. Rees, G. Davies, P. Jarman, M. Weaver, J. Cullwick, J. Davies, E. Stephens, G. Hughes, J. Elliott, M. Griffiths, D. Williams, G. Caple, R. Yeo, S. Pickering, G. Stacey, C. Willis, J. Harries, J. Bonetto, S. Bradwick, W. Treeby, T. Williams, E. George, W. Lewis, M. Forey, M. Powell, L. Walker, W. Jones, K. Libby-Jones, M. Diamond, J. Brencher, S. Morgans, G. Jones, A. Calvert, D. Owen-Jones, S. Powell, G. Thomas, M. Fidler Jones, L. Hooper, J. James, A. Chapman, A. Cox, J. Williams, D. Grehan a D. Macey.)

B PENDERFYNODD yr Aelodau, gan fod eilydd y Rhybudd o Gynnig, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H. Fychan yn ymddiheuro am ei habsenoldeb yn y cyfarfod, fod Rheol 10.6 Gweithdrefn y Cyngor yn cael ei hatal er mwyn i'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i nodi isod sy'n sefyll yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, H. Fychan, G. R. Davies, D. Grehan, J. Williams, A. Cox, J. Davies, J. Cullwick, K. Morgan, S. Rees-Owen, M. Weaver A. Chapman, S. M. Evans, E. Webster, L. Jones, E. Stephens a D. Macey yn cael ei ystyried.

Yn dilyn adroddiadau diweddar o broblemau a allai atal ein holl drigolion rhag mwynhau canol ein trefi yn heddychlon, a hynny ar lefel uwch nag erioed o'r blaen, mae'r Cyngor yma yn ymrwymo i hwyluso Cynhadledd Dinasyddion Ifainc brys yn y Sir.

Caiff y gynhadledd ei harwain gan bobl ifainc y sir a bydd y materion a gaiff

eu trafod yn bethau sy'n flaenoriaethau yn eu barn nhw.

At y diben yma, caiff Cyngorau Ysgolion a Fforwm Ieuenctid Rhondda Cynon Taf eu gwahodd i arwain y gwaith o benderfynu ar y blaenoriaethau allweddol a fydd yn cael eu trafod ar lefel leol, gyda chynrychiolwyr o Ganolfan Wirfoddolwyr Ifainc Heddlu De Cymru'n gwneud hynny ar gyfer y sir.

Er mwyn ceisio dylanwadu ar y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol, bydd y Cyngor yn gwahodd y rheiny sy'n cynrychioli'r sir yn Senedd Ieuenctid Cymru i gymryd rhan a chefnogi unrhyw gynlluniau. Mae angen i bawb ymgysylltu â'n trigolion ifainc a deall eu blaenoriaethau, yn ogystal â diwallu eu hanghenion er mwyn sicrhau cymdeithas sy'n fwy heddychlon, cynhyrchiol a llewyrchus. Yr unig ffordd o wneud hyn yw galluogi ein pobl ifainc i lunio'r agenda fel bod eu blaenoriaethau'n llywio ein dyheadau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau fabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**

Tudalen wag